**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 22 Ionawr 2003 | |
| **Amser:** | 9.00am i 12.15pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lynne Neagle | Torfaen |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | **Yn Bresennol:** | |
| | Sandy Blair | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| | Hugh Gardner | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | Sue Mead | Cyfarwyddwr, Cyd-adolygiadau Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | Cyngh Shan Wilkinson | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, y GIG yng Nghymru |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Richard Tebboth | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Geraint Davies a Lynne Neagle. Yr oedd Janet Ryder yn bresennol yn lle Geraint Davies.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog** *(9.05 - 9.50am)*
**Papur: HSS-01-03(p.1)**

2.1 Cyhoeddodd y Gweinidog bod Steve Lloyd wedi ei benodi yn Gyfarwyddwr ar y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Dywedodd y byddai'n cwrdd â'r Athro Brian Edwards yr wythnos ganlynol i glywed ei adroddiad ar yr amseroedd aros orthopaedig a byddai'n rhoi adroddiad i'r Pwyllgor am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adroddiad misol nesaf. Dywedodd hefyd, yn dilyn cyfarfod gyda'r Grp Gofal Critigol, y byddai gofal critigol bellach yn dod yn rhan o gwmpas canllawiau Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid (SAFF).

2.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan David Melding fod gan y Cynulliad ddyletswydd statudol i ystyried cydraddoldeb yn ei waith a dylai papurau Pwyllgor gynnwys ystyriaeth o'r goblygiadau cyfle cyfartal. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwaith Uned Gydraddoldeb y GIG yn ei hadroddiad misol nesaf.

2.3 Mynegwyd pryder gan yr Aelodau bod y ffigurau yn parhau yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, er gwaethaf yr arian ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer lleihau'r amseroedd aros. Er enghraifft, nifer y bobl oedd yn aros dros 18 mis am driniaeth yng Nghymru fel claf mewnol neu driniaeth ddydd ar ddiwedd Medi 2002 oedd 4,286 o'i gymharu â 6 yn Lloegr. Ar yr un adeg nifer y bobl yng Nghymru oedd yn aros dros chwe mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yng Nghymru oedd 84,000 o'i gymharu â 716 yn Lloegr.

2.4 Cydnabyddodd y Gweinidog bod lleihau amseroedd aros yn her fawr i Gymru, a bod 'Cadw Cydbwysedd' wedi bod yn gynllun gweithredu defnyddiol er mwyn mynd i'r afael â materion capasiti yn y GIG. Dywedodd fod pwysau'r gaeaf wedi cael effaith ar amseroedd aros. Er na welwyd nifer fawr o achosion o'r ffliw, yr oedd y pwysau wedi bod yn uchel yn enwedig yng Nghaerdydd a'r Fro, Gwent a Gogledd Morgannwg, ac yr oedd £7 miliwn ychwanegol wedi ei ddyrannu er mwyn rheoli pwysau brys. Yr oedd oedi wrth drosglwyddo gofal hefyd wedi cael effaith ar amseroedd aros ac yr oedd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn targedu’r arian a ddyrannwyd ar gyfer datrys y problemau oedi wrth drosglwyddo gofal, yn effeithiol. Dywedodd hefyd fod y dulliau a ddefnyddiwyd yn Lloegr ar gyfer cyfrif yr amser aros yn wahanol i'r dulliau yng Nghymru, felly mae'n amhosib gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y ddau. Awgrymodd bod yr Alban yn cael ei chynnwys mewn unrhyw gymhariaeth yn y dyfodol. Byddai'n rhoi esboniad o'r gwahaniaethau yn yr ystadegau yn y cyfarfod nesaf.

2.5 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau oddi wrth yr Aelodau am yr adroddiad misol:

<u>Adran 1: Materion Strategaeth</u>

- Byddai swydd Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol yn cael ei hysbysebu yr wythnos ganlynol.
- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau trosiannol ac am gostau niwtral y broses ddilynol o ddarparu gwasanaethau yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai’r manylion am yr adnoddau ariannol a ddyrannwyd ar gyfer yr ymgyrch ‘Dychwelyd i Ymarfer’ yn cael eu darparu mewn papur i'w nodi.
- Yn y rhaglen ‘Dychwelyd i Ymarfer’ byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys cymorth i dalu am gostau gofal dibynyddion oedrannus yn ogystal â chostau gofal plant. Mae angen dosbarthu cymaint â phosibl o daflenni yn hysbysebu'r ymgyrch.

<u>Adran 2: Perfformiad y GIG</u>

- Yn yr adroddiad misol nesaf byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am y camau oedd yn cael eu cymryd yng Ngwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru i sicrhau fod gan Feddygon Teulu leoliad diogel i ddelio â chleifion a allent o bosibl fod yn beryglus.
- Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod y cynnydd yn nifer yr achosion brys yn ganlyniad i’r amseroedd aros hir am apwyntiadau cyntaf i gleifion allanol neu driniaeth yn yr ysbyty.
- Cyhoeddwyd, y diwrnod hwnnw, ffigurau yn ymwneud â gweithgarwch ymgynghorwyr y GIG a

dangoswyd cynnydd yn y gweithgarwch mewn nifer o feysydd. Seiliwyd y ffigurau ar weithgarwch yr ymgynghorwyr ac nid oedd yn adlewyrchu gweithgarwch drwy'r dulliau newydd o weithio ac Arloesi mewn Gofal a oedd yn atal pobl rhag cael eu hanfon i'r ysbyty. Sefydlwyd grp o arbenigwyr er mwyn edrych ar ffyrdd o gofnodi gweithgarwch newydd a byddai'r grwp yn cyflwyno adroddiad ddiwedd mis Mawrth.

**Camau i'w cymryd**

- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Uned Gydraddoldeb y GIG yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y costau trosiannol ac am gostau niwtral y broses ddilynol o ddarparu gwasanaethau yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai’r manylion am yr adnoddau ariannol a ddyrannwyd ar gyfer yr ymgyrch ‘Dychwelyd i Ymarfer’ yn cael eu darparu mewn papur i'w nodi.
- Byddai gwybodaeth am y gwahaniaeth yn y dull y cofnodir amseroedd aros yng Nghymru a Lloegr yn cael ei pharatoi ar gyfer yr adroddiad misol nesaf.
- Cynnwys yn yr adroddiad misol nesaf y wybodaeth ddiweddaraf am y camau oedd yn cael eu cymryd yng Ngwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru i sicrhau fod gan Feddygon Teulu leoliad diogel i ddelio â chleifion a allent o bosibl fod yn beryglus.

**Eitem 3: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol** *(9.50 - 10.35am)*
**Papur: HSS-01-03(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Shan Wilkinson a Sandy Blair o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a Hugh Gardner o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i'r cyfarfod.

3.2 Rhoddodd Graham Williams amlinelliad byr o'i adroddiad. Y ffactor mwyaf allweddol yn adroddiad eleni oedd y newid o gasglu data yn ymwneud â gweithgarwch i wybodaeth a oedd yn ymwneud yn fwy â pherfformiad a bod Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) wedi datblygu fframwaith gwerthuso perfformiad mewn partneriaeth â’r awdurdodau lleol. Gweithredwyd hwn am y tro cyntaf yn 2002 a byddai'n galluogi AGCC i werthuso'u perfformiad ledled Cymru. Byddai adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn gwerthusiad blynyddol o'u perfformiad. Byddent yn cael cyfle i drafod hyn gyda AGCC cyn cyhoeddi’r llythyr gwerthuso, a byddai disgwyl i'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd. Hefyd, dyma'r tro cyntaf i Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyflwyno grid yn eu hadroddiadau archwilio, a oedd yn debyg iawn i'r hyn a ddefnyddiwyd mewn adolygiadau ar y cyd. Byddai hwn yn rhoi barn ar ba mor dda yr oeddent yn gwasanaethu pobl a faint o le sydd gan yr awdurdodau i wella.

3.3 Nod yr elfennau newydd hyn oedd creu agwedd a oedd yn seiliedig ar wella mewn perthynas â'r

gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael bod awdurdodau yn dysgu oddi wrth eu gilydd a hyd yn oed, mewn rhai achosion, yn dysgu o'r hyn a welwyd o fewn eu hawdurdod. Rhoddodd bwyslais ar roi mwy o sylw ar wella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn 2003. Yr oedd arweiniad clir i wasanaethau cymdeithasol yn fater yr oedd yn rhaid i bob awdurdod lleol fynd i'r afael ag ef er mwyn sicrhau bod eu trefniadau yn ddigon clir a chadarn.

3.4 Dyma atebion y Prif Arolygydd a'i gydweithwyr yn dilyn cwestiynau a sylwadau oddi wrth yr aelodau:

- Yr oedd gwaith yn cael ei wneud ar lefel Cymru-gyfan i geisio codi proffil gwaith gofal cymdeithasol. Cafodd pecyn ei lansio i geisio gwella recriwtio i'r maes.
- Yr oedd Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) yn gorff newydd a oedd yn cael ei noddi gan y Cynulliad mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd. Yr oedd trafodaethau yn cael eu cynnal i gomisiynu'r gyfres gyntaf o raglenni gwaith er mwyn edrych ar ddefnyddwyr/gofalwyr, staffio a materion yn ymwneud â phlant.
- Fel rhan o'r gwaith rheoli perfformiad, yr oedd AGCC wedi cynnal arolwg o asesiadau'r gofalwyr. Yr oedd y canlyniadau'n amrywio gyda rhai awdurdodau'n perfformio'n dda. Yr oedd mesurau perfformiad bellach yn cael eu datblygu er mwyn medru monitro'r maes yn rheolaidd.

**Item 4: Annual Report of the Chief Inspector of Social Services** *(9.50 - 10.35am)*
**Paper: HSS-01-03(p.2)**

4.1 The Chair welcomed Cllr Shan Wilkinson and Sandy Blair of the Welsh Local Government Association (WLGA) and Hugh Gardner of the Association of Directors of Social Services (ADSS).

4.2 Graham Williams gave a brief overview of his report. The key feature of this year's report was the shift from collection of activity data to more performance related information and the Social Services Inspectorate Wales (SSIW) had developed a performance evaluation framework in partnership with local authorities. This had been implemented in 2002 for the first time and would enable SSIW to evaluate performance across Wales. Social services departments would receive an annual evaluation of their performance. They would have an opportunity to discuss this with SSIW prior to an evaluation letter being issued, and would be expected to make this available to the public. It was also the first year SSIW had introduced a grid, similar to that used in joint reviews, into their inspection reports, which would provide a judgement on how well people were being served and how well authorities were placed to improve.

4.3 These new elements were aimed at creating a more improvement based approach in relation to social services in Wales, as there was still insufficient evidence of authorities learning from each other and even, in some cases, learning from within their own authority. He emphasised that greater attention needed to be given in 2003 to bringing about improvement in Social Services in Wales. Clear leadership in social services was an issue every authority needed to address to ensure their arrangements were

sufficiently clear and robust.

4.4 The Chief Inspector and his colleagues gave the following responses to questions and comments from members:

- Work was being developed on an all-Wales basis to try and raise the profile of social care work. A package had been launched to improve recruitment.
- Social Care Institute for Excellence (SCIE) was a new body sponsored by the Assembly in partnership with the Department of Health. Discussions were taking place to commission their first series of work programmes which would be looking at users/carers and staffing and children's issues.
- As part of their performance management work, SSIW had carried out a survey of carers' assessments. The results were variable, with some authorities performing well. Performance measures would now be developed to enable routine monitoring in this area.
- Roedd problemau yn ardal Awdurdod Iechyd Gwent yn dangos bod angen mesur perfformiad yn hytrach na chanlyniadau. Roedd rhai awdurdodau yn treulio rhan helaeth o'u cyllideb ar wasanaethau cymdeithasol, ond nid oeddynt yn targedu'r arian yn dda iawn. Cafodd AGCC gyfarfod gyda chydweithwyr iechyd i fwrw golwg dros y ffordd yr oedd yr holl system gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio i geisio dod o hyd i ddulliau o fynd i'r afael â'r broblem.
- O ran cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar ganllawiau i helpu pobl ag anawsterau dysgu ddiogelu eu harian.
- Roedd peth pryder am yr amrywiaeth yn nifer y plant ar y cofrestri plant mewn perygl. Roedd ymchwil wedi'i gomisiynu i'r patrymau ledled Cymru a byddai ffrwyth yr ymchwil ar gael yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Yna gofynnir i awdurdodau lleol edrych ar hyn yng nghyd-destun eu hardaloedd eu hunain.
- Roedd trafodaethau ar y gweill gydag awdurdodau lleol am eu perfformiad o ran adolygu plant ar y gofrestr plant mewn perygl, oherwydd credir bod hwn yn dangos perfformiad yn well na'r nifer ar y gofrestr.

4.5 Dywedodd y Cyngh. Shan Wilkinson bod oedi wrth drosglwyddo gofal yn fater yr oedd yn rhaid i bob awdurdod lleol fynd i'r afael ag ef. Roedd rhannau gwahanol o Gymru yn ymateb yn wahanol i'r broblem oherwydd bod nifer y bobl oedrannus yn amrywio, bod lefelau afiechyd yn amrywio a bod lefelau'r ddarpariaeth y mae'r gwasanaeth iechyd a'r sector preifat yn ei chynnig hefyd yn amrywio. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymrwymedig i ddod o hyd i ddulliau o gefnogi awdurdodau lleol, ac roedd yn cydnabod mor bwysig oedd yr Uned Gymorth o ran lledaenu arferion gorau. Dywedodd bod archwilio'n bwysig ym maes llywodraeth leol, ond nid peth hawdd oedd cynnal archwiliad yn effeithiol, gan fod angen hyfforddi aelodau a bod angen llawer iawn o gymorth. Roedd pethau'n gwella ond roedd cryn ffordd i fynd.

4.6 Cytunodd Sandy Blair bod lle i wella ac mai'r ffordd orau o wella oedd dysgu oddi wrth yr arferion gorau. Dros y deunaw mis diwethaf, gyda chefnogaeth y Cynulliad, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ceisio sicrhau bod cysylltiad mwy clos rhwng cyfrifoldebau arweinwyr awdurdodau lleol tuag at bolisïau a chyflogaeth. Maent wedi sefydlu Uned Gaffael, a fu'n rhoi cyngor ar y dulliau gorau o

dargedu adnoddau, a'r dulliau gorau o ddadansoddi a darparu gwasanaethau. Croesawyd hefyd Uned Cymorth Cymru Gyfan, sy'n helpu awdurdodau lleol i wella gwasanaethau.

4.7 Dywedodd Hugh Gardner mai gweithio mewn partneriaeth oedd y sylfaen. Er bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n agos, nid oedd digon o bwyslais wedi cael ei roi ar y cyd-lwyddiannau.

4.8 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi medru mynychu'r cyfarfod gan fod hyn yn dangos eu hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Roedd cyllid ar gael ar gyfer hyblygrwydd ar y cyd, a chalonogol iawn oedd clywed bod awdurdodau lleol yn cydweithio. Cymeradwyodd yr ymrwymiad bod 2003 i fod yn flwyddyn o welliannau.

**Eitem 5: Llwybrau i Well Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru - Yr Ail Adroddiad Cyffredinol ar Adolygiadau ar y Cyd yng Nghymru** *(11.05 - 12.10pm)*
**Papur: HSS-01-03(p.3)**

5.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Sue Mead, Cyfarwyddwr y Tîm Adolygiad ar y Cyd.

5.2 Rhoddodd Sue Mead gyflwyniad ar adroddiad yr adolygiad ar y cyd *Llwybrau i Well Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002. Mae copi o'i chyflwyniad yn Atodiad 1. Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- Os yw cyngor i gael enw da am wasanaethu pobl yn dda, byddai disgwyl iddo fod ag ystod o wasanaethau a oedd yn cefnogi hyblygrwydd a dewis ac yn rhoi dewisiadau go-iawn i bobl a oedd yn gwneud y gorau o'u gallu i fod yn annibynnol. Dylai fod yn cwrdd â'i holl gyfrifoldebau craidd statudol ac yn gwneud ymdrech lew i ganolbwyntio ar ganlyniadau a mesur ei berfformiad yn erbyn y canlyniadau hyn.
- Roedd y mwyafrif o gynghorau Cymru yn dod o fewn y categori o wasanaethu rhai pobl yn dda. Roedd ganddynt drefniadau digonol i ymateb i ddefnyddwyr ac roeddynt yn darparu gwasanaethau hyd at safon dderbyniol, er bod lefel y safon dderbyniol honno yn amrywio rhyw gymaint.
- Byddai cynghorau a gâi eu hystyried yn rhai nad oeddynt yn gwasanaethu pobl yn dda naill ai ag un gwasanaeth mawr oedd yn methu â chyflawni neu ag ystod o wasanaethau a oedd â methiannau difrifol.
- Roedd gan gynghorau yr ystyrir eu bod ar dir simsan wendidau yn eu harweinyddiaeth a'u seilwaith ac felly'n methu â chyflawni newidiadau.
- Roedd nifer helaeth o bobl yng Nghymru yn teimlo bod y cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol wedi cyfoethogi eu bywydau. Serch hynny, roedd y grwp hwn yn cynnwys pobl hyn a oedd yn ddiolchgar iawn am y gwasanaethau a gawsant, ond nad oedd bob amser â barn gytbwys am ansawdd y gwasanaethau hynny.
- Lle gwelwyd bod cyngor yn methu â gwasanaethu pobl yn dda, ansawdd eu gwasanaethau ar gyfer plant oedd fel rheol yn cyfrif am hynny.
- Roedd rhai enghreifftiau ardderchog o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn cael eu darparu'n

bennaf gan fudiadau gwirfoddol ar ran y cynghorau.

- Roedd pryderon difrifol am ansawdd y gwaith o asesu plant a theuluoedd, ac am y trefniadau ar gyfer monitro eu cynllluniau gofal.
- Roedd lle mawr i wella yn y trefniadau mabwysiadu.
- Gwelwyd newid amlwg yn y cynghorau a adolygwyd yn rhan olaf y rhaglen. Roeddynt yn medru cyfleu'n well beth yr oeddynt yn ceisio'i gyflawni trwy eu hadrannau gwasanaethau cymdeithasol.
- Roedd yn rhaid i gynghorau newid eu diwylliant a chanolbwyntio ar yr hyn oedd yn digwydd yn y maes. Roedd angen i systemau a phrosesau fod yn flaengar ac edrych tuag allan.
- Roedd partneriaethau yn hanfodol bwysig. Roedd cyd-ddibyniaeth ar eraill yn rhan annatod o'r gwasanaethau cymdeithasol, ac o ystyried y straen ar gapasiti, roedd nifer o awdurdodau yng Nghymru yn datblygu fframwaith o gyd-ddibyniaeth a oedd yn rhan hanfodol o'r broses o wella.
- Roedd y sector annibynnol yng Nghymru yn fregus iawn ac nid oedd defnyddio contractau byr-dymor yn rhoi digon o sefydlogrwydd i gefnogi gofal cymdeithasol yn effeithiol.
- Rodd sawl cyngor wedi dweud eu bod yn cefnogi'r egwyddor o fyw'n annibynnol ond nid oedd eu patrymau o wariant yn ategu hyn.

5.3 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan Sue Mead:

- Nid oedd tystiolaeth o gwbl i awgrymu bod cysylltiad rhwng yr hyn yr oedd cyngor yn ei wario a gwell perfformiad. Nid oedd y dadansoddiad hwn wedi'i wneud yn achos cynghorau Cymru, ond gellid gwneud hynny yn ystod y trosolwg terfynol.
- Yn aml iawn, gallai'r sector annibynnol gynnig gofal rhatach. Roedd angen i awdurdodau lleol fod yn siwr bod eu gwasanaeth mewnol yn rhoi gwerth ychwanegol am arian os oedd y gwasanaeth hwnnw yn ddrutach nag eraill.
- Roedd adolygiadau ar y cyd yn ymwneud â'r trefniadau i ddarparu canlyniadau o safon i helpu pobl i fyw'n annibynnol, ni waeth pwy oedd yn darparu'r cyfryw wasanaeth.
- Ym mhob Cyngor yr ymwelwyd ag ef yng Nghymru gwelwyd rhyw gymaint o arfer da a allai fod o fudd i eraill yn yr awdurdod hwnnw ac yng Nghymru benbaladr.

5.4 Dywedodd Sandy Blair bod angen i'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod statws y sector annibynnol yn yr economi gyffredinol yng Nghymru. Roedd yn wannach nag yn Lloegr. Dywedodd Hugh Gardner bod yr henoed yng Nghymru fel rheol yn llai cefnog nag yn Lloegr ac yn fwy dibynnol ar wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Roedd materion anodd am flaenoriaethau awdurdodau lleol ac roedd symud i ffwrdd o'r drefn o roi arian i'r Cynghorau at ddibenion penodol yn rhywbeth a oedd yn achosi pryder. Roedd angen pennu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

5.5 Dywedodd y Cyngh. Shan Wilkinson bod llywodraeth leol yn croesawu adolygiadau ar y cyd, ni waeth pa mor anghysurus oedd cael beirniadaeth gyhoeddus, gan fod y broses yn help i'r rhai hynny a oedd yn awyddus i wella gwasanaethau. Byddai Cynllun Cymru ar gyfer Gwella yn galluogi cynghorau i ddatblygu eu gallu i edrych ar eu ffordd o weithio, clustnodi mannau gwan a phenderfynu sut i fynd i'r afael â hwy. Roedd yn rhaid i unrhyw broses adolygu fod yn gydnaws â hynny. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol trwy gyfrwng Syniad i gynnig

hyfforddiant i aelodau i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau corfforaethol cyfnewidiol.

5.6 Dywedodd y Gweinidog bod angen arloesi ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Roedd angen mynd i'r afael â breuder y sector gofal annibynnol, ac roedd canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau wedi'u paratoi ar gyfer awdurdodau lleol. Hefyd, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyllid ar gyfer ystod o fentrau newydd er mwyn symbylu newid. Roedd partneriaethau cadarn gyda'r sector annibynnol ac roedd y rhain yn dechrau ffurfio'n broses o weithio ar y cyd.

5.7 Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd y byddent yn trafod fframwaith rheoli perfformiad AGCC, y Rhaglen Arolygu a'r trefniadau oedd i ddilyn yr adolygiadau ar y cyd yn y cyfarfod ar 26 Chwefror.

**Eitem 5: Cofnodion 18 Tachwedd 2002**
**Papur: HSS-23-02(cof)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion 18 Rhagfyr. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.